British Heart Foundation Cymru

# Briffiad Maniffesto BHF Cymru:

## Cynllun Newydd i Gymru ar gyfer Clefydau'r Galon a Chylchrediad y Gwaed



**Cais Maniffesto 2021: Y pleidiau i ymrwymo i gynllun eofn ar gyfer clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed ac addo darparu digon o adnoddau penodedig fel y gellir gweithredu mewn ffordd glir ac effeithiol.**

### Crynodeb


Mae clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yn dal i achosi llawer o salwch a marwolaethau yng Nghymru. Dyna sy'n achosi mwy nag un farwolaeth o bob pedair ac mae tua 340,000 o bobl Cymru yn byw gyda'r cyflyrau hyn[1].

Roedd y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau ar y Galon 2017* yn rhoi sylw hollbwysig i glefydau'r galon a chylchrediad y gwaed ond bydd y cynllun hwn yn dod i ben yn 2021. Ar hyn o bryd, does dim ymrwymiad i gynllun newydd ac mae mwy i'w wneud o hyd. Hoffem weld y gwaith yn parhau ar ôl 2021, mewn cynllun newydd, uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar y clefydau hyn.

Gwyddom y gall strwythur y GIG yng Nghymru newid dros y blynyddoedd nesaf. Ond mae angen i gynlluniau clefyd-benodol fod yn rhan hanfodol o'r strwythur newydd. Mae angen i ni sicrhau bod clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed, sy'n lladd mwy o bobl Cymru na bron unrhyw un peth arall, yn dal i gael blaenoriaeth. Os hoffech wybod mwy am unrhyw beth yn y briffiad hwn, cysylltwch â Gemma Roberts, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus ar *robertsge@bhf.org.uk*.

## Strwythur Newydd GIG Cymru

Deallwn nad oes cynlluniau pendant ar gyfer strwythurau newydd y GIG ar hyn o bryd. Rydym ni, yn BHF Cymru, yn hollol gefnogol i greu Gweithrediaeth newydd i'r GIG er mwyn hwyluso gwaith trawsffiniol gan fyrddau iechyd lleol a hybu gwelliannau yn y gwasanaethau. Fodd bynnag, er mwyn i'r weithrediaeth fod yn hollol effeithiol yn gwella gofal ar gyfer pobl sydd mewn perygl o gael clefyd y galon neu eisoes yn dioddef ohono, rhaid i'r strwythur newydd sicrhau bod:

1) **Clefyd y galon yn dal yn flaenoriaeth a bod cynllun clefyd-benodol yn rhan hanfodol o'r strwythur newydd;**

2) **Y strwythurau llywodraethu'n rhai cadarn sy'n sicrhau atebolrwydd digonol; a bod**

3) **Y cynlluniau'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â chlinigwyr, cleifion a'r trydydd sector.**

## Cynllun Newydd i Gymru ar gyfer Clefydau'r Galon a Chylchrediad y Gwaed

Bu ein tîm yn BHF Cymru yn cynnal ymchwil helaeth ac yn cydweithio'n agos â chlinigwyr, cleifion a'r cyhoedd i baratoi *Cynllun Newydd i Gymru ar gyfer Clefydau'r Galon a Chylchrediad y Gwaed*. Mae'r cynllun hwn yn pennu tair blaenoriaeth ar gyfer gwella gofal am bobl â chlefydau'r galon a chylchrediad y gwaed yng Nghymru:

1) **Sicrhau gwelliant mawr o ran canfod cyflyrau fel pwysedd gwaed uchel a cholesterol uchel sy'n aml yn codi cyn clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed a helpu pobl i'w rheoli.**

2) **Ar hyn o bryd mae llawer o amrywiadau ym maes gofal yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau mynediad hawdd a theg at Lwybrau'r Galon Cymru Gyfan, a fydd yn sicrhau bod cleifion ledled Cymru'n cael y gofal gorau posibl, o gyfnod y diagnosis a'r driniaeth, i gyfnod y gwella a'r gwasanaethau cefnogi. A gofal diwedd oes os bydd angen.**

3) **Mae'n rhaid i unrhyw welliannau mewn gofal gael eu seilio ar ddata. Mae angen gwella'r ffordd y caiff data eu casglu, eu rhannu a'u defnyddio yng Nghymru. Rhaid gwneud hyn ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn tynnu sylw at amrywiadau diangen yn y driniaeth a sbarduno gwelliannau i gleifion.**



Gan fod cymaint o ymgysylltu wedi bod, mae'r Cynllun a baratowyd gan BHF Cymru a'r blaenoriaethau y mae'n eu cynnig yn cynnwys consensws pawb sy'n ymwneud â gwella gofal am gleifion sydd â chlefydau'r galon a chylchrediad y gwaed a byddai'n cyd-fynd yn dda ag unrhyw strwythur gan y GIG sy'n blaenoriaethu clefydau sy'n lladd cynifer o bobl.

### Gweithredu: Cais i'r pleidiau gwleidyddol ymrwymo i gynllun eofn ar gyfer clefydau'r galon a chylchrediad y gwaed ac addo darparu digon o adnoddau penodedig fel y gellir gweithredu mewn ffordd glir ac effeithiol.

1. Amcangyfrif y BHF wedi'i seilio ar ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19